Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Goruchwylio gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru

## Rheolau ar gyfer Comisiynwyr

## Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon, a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig**'.

**Ebrill 2025**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 35**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.llyw.cymru/cod-ymarfer-ar-ansawdd-pryderon-chau-gwasanaethau-gofal-chymorth

**Ebost:** TimCartrefiGofal@llyw.cymru

Mae **Hawdd ei Ddeall** Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig ..................... 4**

**Am y ddogfen yma ................................................................ 8**

**Rolau a dyletswyddau pob sefydliad.......................................11**

**Am y Cod Ymarfer yma ..........................................................16**

Gwiriadau ansawdd .......................................................17

Delio â phryderon...........................................................22

Datgomisiynu ..................................................................28

Beth i'w wneud os bydd gwasanaeth yn cau .....................31

**Geiriau anodd ......................................................................35**

# Gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig

Mae hyn yn meddwl gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn meddwl gwasanaethau fel:



- **Cartrefi gofal oedolion** - darparu lle i oedolion fyw pan nad ydyn nhw'n gallu byw yn eu cartrefi eu hunain, Maen nhw'n darparu gofal a chefnogaeth.



- **Cartrefi gofal plant** – lle i blant fyw, pan nad ydyn nhw'n gallu byw gyda'u teuluoedd eu hunain. Maen nhw'n darparu gofal a chefnogaeth.



- **Gwasanaethau cymorth cartref** - gwasanaethau sy'n darparu gofal i bobl yn eu cartrefi eu hunain.



- **Gwasanaethau preswyl i deuluoedd** – lle mae plant a rhieni'n byw am gyfnod, mae gallu rhieni i ateb anghenion eu plant yn cael ei wirio, ac maen nhw'n cael cyngor a chefnogaeth.



- **Gwasanaethau mabwysiadu a maethu** – gwasanaethau sy'n helpu i leoli plant mewn cartrefi diogel i gael gofal pan nad ydy eu teuluoedd biolegol yn gallu gofalu amdanyn nhw.



- **Gwasanaethau eiriolaeth** – yn helpu pobl i ddweud beth maen nhw ei eisiau a'i angen.



- **Llety diogel** – lle i blant sydd mewn perygl o niweidio eu hunain neu eraill. Dydyn nhw ddim yn rhydd i adael heb ganiatâd. Mae eu dewisiadau a'u rhyddid yn gyfyngedig.



- **Gwasanaethau lleoli oedolion** – lleoli oedolion sydd yn byw gyda theuluoedd yn y gymuned a chael gofal a chefnogaeth.



- **Gwasanaeth preswyl ysgol arbennig** – darparu arosiadau dros nos i blant a phobl ifanc gydag anghenion ychwanegol ar ddyddiau'r wythnos yn ystod amser tymor yn yr ysgol.



Fe fyddwn ni yn eu galw yn **wasanaethau** yn y ddogfen yma.




Mae **rheoleiddiedig** yn meddwl bod gwasanaethau wedi'u cofrestru gyda, a'u goruchwylio gan **Arolygiaeth Gofal Cymru** (**AGC**).



Mae'n rhaid i wasanaethau gofal cymdeithasol a chymorth gofrestru gyda **AGC**.



Mae **AGC** yn gwneud yn siŵr eu bod yn dilyn rheolau ansawdd a diogelwch.



Mae awdurdodau lleol (cynghorau lleol) yn darparu ac yn **comisiynu'r** gwasanaethau yma.

Mae **comisiynu** yn meddwl cynllunio, trefnu a thalu am wasanaethau i ateb anghenion pobl leol. Mae'r sefydliadau a'r bobl sy'n gyfrifol am **gomisiynu** yn cael eu galw yn **Gomisiynwyr**.

Mae byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG hefyd yn **comisiynu** gwasanaethau.



Mae awdurdodau lleol yn cydweithio â byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG i **gomisiynu** gwasanaethau.



Yn y ddogfen yma, fe fyddwn ni'n galw awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau GIG yn **Gomisiynwyr**.



Mae'n **rhaid** i **Gomisiynwyr** ddilyn rheolau, deddfau a chanllawiau i wneud yn siŵr bod gwasanaethau yn:

- ansawdd da,
- diogel,
- ac yn cael eu rheoli'n iawn.

# Am y ddogfen yma



Rydyn ni eisiau i **wasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig** yng Nghymru fod y gorau maen nhw'n gallu bod.




Mae hwn yn **God Ymarfer** newydd. Set o reolau neu ganllawiau ydy **Cod Ymarfer** sy'n esbonio sut i wneud rhywbeth yn iawn.




Mae'r **Cod Ymarfer** yma yn dweud sut mae **Comisiynwyr** yn:

- Edrych ar ansawdd y gwasanaethau.
- Delio â phryderon.




- **Datgomisiynu** gwasanaethau.

**Datgomisiynu** ydy pan fydd **Comisiynwyr** yn dod â chontract i ben gyda darparwr gwasanaeth.




- Rhoi cynlluniau ar waith os bydd gwasanaeth yn cau.



Fe ddylai hyn gael ei wneud yn yr un ffordd ar draws Cymru.



Rhaid i **Gomisiynwyr** ddilyn y **Cod Ymarfer** yma.




Fe fydd yn dechrau ym mis **Mawrth 2026**.



**Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am y Cod Ymarfer newydd yma.**



**Darllenwch y ddogfen yma, ac yna atebwch y cwestiynau yn y ffurflen ymateb.**




Anfonwch eich sylwadau i ni erbyn **hanner nos** ar **30 Mehefin 2025**.

# Rolau a dyletswyddau pob sefydliad

**Mae'n rhaid i awdurdodau lleol:**



- Gwneud yn siŵr bod digon o wasanaethau gofal a chymorth ar gael i bobl leol.



- **Comisiynu** gwasanaethau gofal a chymorth i ateb anghenion pobl.




- Gweithredu os nad ydy darparwr gwasanaeth yn gallu darparu gwasanaethau ddim mwy.



- Darparu gofal i oedolion os ydy eu gwasanaeth yn cau, nes iddyn nhw ddod o hyd i wasanaeth newydd.

## Byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG:



- Maen nhw'n gallu **comisiynu** cymorth, llety cleifion, neu ofal nyrsio.




- Asesu anghenion iechyd pobl.



- Darparu **Gofal Nyrsio a Ariennir (FNC)** a **Gofal Iechyd y GIG Parhaus (CHC)**. Mae **FNC** a **CHC** yn becynnau gofal sydd yn cael eu darparu gan y GIG ar gyfer unigolion ag anghenion iechyd cymhleth neu hirdymor.

**Mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau cofrestredig ac unigolion cyfrifol:**




- Dilyn Deddf 2016 a'i rheolau.



- Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau'n ddiogel, o ansawdd uchel ac yn cael eu rheoli'n dda.



- Gwneud yn siŵr bod gan eu gwasanaeth ddigon o arian i barhau i redeg.



Rhaid i bob gwasanaeth fod ag **unigolyn cyfrifol**. Maen nhw'n goruchwylio'r gwasanaeth.

## Arolygiaeth Gofal Cymru:



- Mae **AGC** yn edrych ar wasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru.




- Mae'n cofrestru gwasanaethau ac yn eu harchwilio i wneud yn siŵr eu bod yn dilyn y rheolau.

- Mae'n gallu cymryd camau os nad ydy gwasanaeth yn ddiogel neu'n ddigon da.



- Mae'n gallu cyfyngu ar nifer y bobl mewn gwasanaeth neu stopio derbyniadau newydd.




- Mae'n gallu canslo'r broses o gofrestru'r gwasanaeth gofal a chymorth os oes angen.



- Os ydy gwasanaeth yn bwriadu cau neu os oes pryderon diogelwch, mae'n dweud wrth yr awdurdod lleol.

## Gofal Cymdeithasol Cymru:



- Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol.



- Mae'n edrych ar bryderon am weithwyr gofal cymdeithasol.



Mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i **AGC** a Gofal Cymdeithasol Cymru gydweithio i rannu gwybodaeth gyda'i gilydd a gyda:

- awdurdodau lleol,
- byrddau iechyd lleol,
- ac ymddiriedolaethau'r GIG.



Rhaid i bawb weithio gyda'i gilydd a rhannu gwybodaeth i wneud yn siŵr bod gwasanaethau'n aros yn ddiogel a'u bod o ansawdd uchel.

# Am y Cod Ymarfer yma



Mae'r **Cod Ymarfer** yma ar gyfer **gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig** sydd wedi cael eu **comisiynu** gany:

- awdurdodau lleol,
- byrddau iechyd lleol,
- ac ymddiriedolaethau'r GIG.




Dydy'r **Cod** yma **ddim** yn berthnasol i:

- Gwasanaethau awdurdodau lleol sydd heb eu cofrestru gyda **AGC**.
- Gwasanaethau GIG fel ysbytai, meddygon teulu, deintyddion, optegwyr a fferyllfeydd.
- Gwasanaethau mae pobl yn eu trefnu ac yn talu amdanyn nhw eu hunain drwy **daliadau uniongyrchol**.




Mae **Taliadau Uniongyrchol** yn arian mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu ei roi i chi yn lle gwasanaeth. Rydych chi'n gallu ei ddefnyddio i brynu eich gofal a'ch cefnogaeth a'ch gwasanaethau eich hun. Mae hyn yn rhoi mwy o reolaeth i ch.

# Gwiriadau ansawdd



Rhaid i wasanaethau fodloni'r safonau ansawdd yn ôl y gyfraith.




Mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau fod â systemau ar waith i ddilyn y rheolau. Mae'n rhaid iddyn nhw edrych ar ansawdd y gofal maen nhw'n ei ddarparu'n rheolaidd.



Mae'n bwysig gweithio gyda'n gilydd i wneud yn siŵr bod gwasanaethau'n iawn i bobl.



Mae'r adran yma yn cynnwys rheolau ac arweiniad ar sut i wneud yn siŵr bod gwasanaethau'n cynnig gofal a chymorth o ansawdd uchel.

## Am y rheolau a'r canllawiau:





Rhaid i **Gomisiynwyr** gynnwys rheolau ansawdd a diogelwch mewn contractau a pholisïau lleol. Er enghraifft, fe ddylai'r contract ddweud:

- Sut i edrych ar ansawdd.
- Beth sy'n digwydd os oes unrhyw broblemau.
- Beth i'w wneud os bydd angen i'r contract ddod i ben.
- Sut i helpu i ddatrys problemau.



Rhaid i **Gomisiynwyr** weithio gyda gwasanaethau a phartneriaid i wneud yn siŵr bod ansawdd y gofal yn dda.




Fe ddylai **Comisiynwyr** geisio osgoi gwneud i ddarparwyr gwasanaethau ailadrodd yr un adroddiadau.



Rhaid i **Gomisiynwyr** edrych ar wasanaethau'n rheolaidd i stopio unrhyw broblemau rhag gwaethygu.



Rhaid i **Gomisiynwyr** gael systemau da i casglu a recordio adborth ar ddiogelwch a llesiant pobl.



Mae'n rhaid i **Gomisiynwyr** asesu unrhyw bryderon sy'n codi a rhannu unrhyw brawf o bryderon gyda gwasanaethau.



Os oes angen i'r gwasanaeth fod yn well, rhaid i'r **Comisiynwyr** ysgrifennu at y darparwr gwasanaeth yn gyflym am:

- gofidiau,
- risgiau,
- a beth sydd angen ei wneud.



Rhaid i **Gomisiynwyr** ddweud sut mae'r contract wedi'i dorri. A rhoi dyddiad cau clir ar gyfer datrys unrhyw broblemau.



Rhaid i **Gomisiynwyr** gofnodi unrhyw brawf yn ysgrifenedig. Fe ddylai'r adroddiad ddweud pa ran o'r gwasanaeth sydd ddim yn cyfarfod â rheolau'r contract.




Mae'r **Comisiynwyr** yn gallu gofyn i'r darparwr gwasanaeth wneud cynllun i ddatrys y problemau.



Rhaid i **Gomisiynwyr** weithio gyda phartneriaid eraill i leihau risgiau drwy ddatrys problemau. Fe ddylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl.



Fe ddylai **Comisiynwyr** gefnogi darparwyr gwasanaethau pan fo angen.



Fe ddylai **Comisiynwyr** ddweud wrth y darparwr gwasanaeth yn ysgrifenedig pa gymorth fyddan nhw yn ei gynnig. Fel hyfforddiant neu gyngor.



Fe ddylai byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG helpu gyda phroblemau gofal a chymorth sy'n gysylltiedig ag iechyd.

# Delio â phryderon



Mae'r adran yma yn cynnwys rheolau a chanllawiau ar sut mae **Comisiynwyr** yn rheoli pryderon sy'n cael eu codi. Mae'n gallu bod yn broblem un-tro neu'n broblem sy'n parhau i ddigwydd.



Mae pryderon yn cael eu codi pan fydd risgiau am:

- Pa mor hir mae gwasanaeth yn gallu aros ar agor.
- Ansawdd a diogelwch y gwasanaeth.
- Diogelwch a llesiant pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

## Am y rheolau a'r canllawiau:




Rhaid i **Gomisiynwyr** gael digon o brawf i ddechrau'r broses o ddelio â'r pryder sydd wedi cael ei godi.




Rhaid i **Gomisiynwyr** ddilyn y rheolau a bod yn deg.



Fe ddylai **Comisiynwyr** edrych i weld oes modd datrys pryderon yn gyntaf, cyn cymryd unrhyw gamau.




Fe ddylai **Comisiynwyr** gefnogi'r darparwr gwasanaeth yn ystod y broses o ddelio â'r pryderon.



Fe ddylai **Comisiynwyr** ysgrifennu at y darparwr gwasanaeth i ddweud yn glir wrthyn nhw:

- lle maen nhw'n methu,
- a beth sydd angen ei drwsio.





Fe ddylai **Comisiynwyr** weithio gyda'r darparwr gwasanaeth i wneud cynllun gweithredu. A gosod terfynau amser i ddatrys y pryderon. Mae'r cynllun gweithredu yma yn perthyn i'r darparwr gwasanaeth.



Fe ddylai **Comisiynwyr** ddarparu cymorth ychwanegol pan fo angen.



Fe ddylai **Comisiynwyr** weithio gyda sefydliadau eraill i ddelio â'r pryderon. Fe ddylen nhw drefnu ymweliadau â'r gwasanaeth.




Fe ddylai **Comisiynwyr** rannu gwybodaeth gyda'r holl bartneriaid. Gan gynnwys pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu teuluoedd a'u staff.




Mae **Comisiynwyr** yn gallu dechrau'r broses ar gyfer delio â phryderon ar yr un pryd â phroses ddiogelu.



Rhaid i **Gomisiynwyr** ddod â'r broses bryderon i ben unwaith y bydd y problemau yn cael eu datrys. Fe ddylid delio ag unrhyw broblemau newydd trwy wiriadau ansawdd.



Fe ddylai'r penderfyniad i **ddatgomisiynu** gwasanaeth fod yn seiliedig ar ydy pobl mewn perygl.



Rhaid i **Gomisiynwyr** esbonio pam maen nhw wedi gwneud y penderfyniad a chadw cofnodion o unrhyw dystiolaeth.



Mae gwasanaethau yn gallu dadlau yn erbyn y penderfyniad yn y llys.



Rhaid i **Gomisiynwyr** beidio â dweud wrth ddarparwyr gwasanaethau i stopio derbyn **lleoliadau newydd**. Os ydy darparwr gwasanaeth yn dewis rhoi'r gorau iddi, rhaid iddo gynnwys hyn yn ei gynllun gweithredu.



Mae **lleoliadau newydd** yn meddwl derbyn pobl newydd sydd angen eu gwasanaethau.



Rhaid i benderfyniadau i ganslo contract fod yn seiliedig ar **asesiad risg**.

Mae **asesiad risg** yn broses ffurfiol ar gyfer edrych ar y risgiau posibl, a sut i leihau risgiau.



Rhaid i **Gomisiynwyr** ddilyn proses **asesu risg** eu sefydliad eu hunain.




Dydy cynlluniau gweithredu ar gyfer delio â phryderon ddim yn cymryd lle y camau mae'r **AGC** wedi eu nodi. Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau ddilyn y camau mae **AGC** wedi eu nodi yn ôl y gyfraith.



Os oes pryderon difrifol am ymddygiad gweithiwr, fe ddylai'r **Comisiynwyr** ystyried adrodd am:

- gweithwyr gofal cymdeithasol i Gofal Cymdeithasol Cymru,
- neu nyrsys i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.



Rhaid i **Gomisiynwyr** ddweud wrth bartneriaid eraill am unrhyw broblemau o ran ansawdd neu ddiogelwch.

# Datgomisiynu



Mae gan yr adran yma reolau a chanllawiau ar gyfer **datgomisiynu** gwasanaeth.




Dyma pryd mae'r **Comisiynwyr** yn dod â chontract i ben gyda darparwr gwasanaeth.

Mae **Comisiynwyr** yn gallu **datgomisiynu** gwasanaeth os:



- Dydy'r gwasanaeth ddim yn bodloni safonau diogelwch ac ansawdd.



- Dydy'r gwasanaeth ddim wedi gwella.

- Mae problemau ariannol.



- Mae angen i **Gomisiynwyr** newid y gwasanaethau sydd yn cael eu darparu.

## Am y rheolau a'r canllawiau:




Rhaid i **Gomisiynwyr** edrych i weld pa mor dda mae gwasanaeth yn gweithio, ac os ydyn nhw'n ateb anghenion pobl.



Fe fydd hyn yn helpu i benderfynu a oes angen y gwasanaeth o hyd.




Mae **Comisiynwyr** yn gallu **datgomisiynu** gwasanaeth drwy ddod â chontract, cytundeb i ben neu stopio cyllid.



Os ydy'r **Comisiynwyr** yn penderfynu **datgomisiynu** gwasanaeth, rhaid iddyn nhw wneud yn siŵr bod anghenion pobl yn dal i gael eu hateb. A gwneud yn siŵr bod pobl yn symud i wasanaeth arall yn esmwyth.

Rhaid i **Gomisiynwyr** feddwl am:




- sgiliau gweithwyr lleol,
- sut fyddai **datgomisiynu** gwasanaeth yn effeithio ar y gymuned,



- sut mae'n gallu effeithio ar swyddi a'r **economi** leol.

> Yr **economi** ydy'r ffordd mae pobl yn gwario arian a'r ffordd mae pobl yn gwneud arian.



Rhaid i **Gomisiynwyr** ddweud wrth bartneriaid eraill os ydyn nhw'n **datgomisiynu** gwasanaeth oherwydd materion ansawdd a diogelwch.



Fe ddylai **Comisiynwyr** siarad yn glir â phawb sy'n gysylltiedig. Fel pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu teuluoedd, eu heiriolwyr a'u gweithwyr.

# Beth i'w wneud os bydd gwasanaeth yn cau




Mae gwasanaethau yn gallu cau am lawer o resymau. Mae'n gallu cael ei gynllunio neu heb ei gynllunio. Mae cau yn gallu bod yn:


- Yn wirfoddol - pan fydd y darparwr gwasanaeth yn dewis cau.

- Pan fydd rheoleiddwyr fel **AGC** yn ei orchymyn. Mae gwasanaethau hefyd yn gallu cau oherwydd materion ariannol neu argyfyngau.




Mae gan yr adran yma reolau a chanllawiau i'w dilyn gan **Gomisiynwyr** os bydd gwasanaeth yn cau.

## Am y rheolau a'r canllawiau:



Mae'n rhaid i **Gomisiynwyr** gael proses ar waith i gefnogi cau gwasanaeth.




Mae'n rhaid bod gan **Gomisiynwyr** gynlluniau ar waith i wneud yn siŵr bod gwasanaethau'n cau'n ddioge.




Mae'r **Cod** yma yn awgrymu ffyrdd o osgoi cau.



Rhaid i **Gomisiynwyr** wneud yn siŵr bod darparwyr gwasanaethau yn rhoi rhybudd os ydyn nhw'n bwriadu cau, os yn bosibl.



Mae **Comisiynwyr** angen tîm sy'n barod i ddelio â chau, gyda rolau a chynlluniau clir.



Rhaid i **Gomisiynwyr** wneud yn siŵr bod pobl yn parhau i gael y gofal a'r cymorth maen nhw ei angen os bydd gwasanaeth yn cau neu'n methu. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n talu am eu gofal eu hunain.



Os ydy pobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n cau rhaid i **Gomisiynwyr** ddod o hyd i gartrefi newydd sy'n ateb anghenion pobl. Mae'n rhaid iddyn nhw wrando ar beth sydd gan bobl i'w ddweud. A gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu cefnogi gyda'r symud.



Os nad ydy pobl yn byw mewn gwasanath rhaid i **Gomisiynwyr** ddod o hyd i wasanaethau newydd sy'n ateb anghenion pobl. Fe ddylai **Comisiynwyr** wneud yn siŵr bod pobl yn symud i wasanaeth arall yn esmwyth. Mae'n rhaid iddyn nhw wrando ar beth sydd gan bobl i'w ddweud.



Rhaid i **Gomisiynwyr** ddweud wrth bobl am y cau ac ateb unrhyw gwestiynau.



Wrth gau gwasanaeth, rhaid i gynlluniau lleol gynnwys rôl darparwr gwasanaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gwasanaeth:



- Dilyn y rheolau a darparu gofal diogel o ansawdd da yn ystod y cau.



- Gweithio gyda'r tîm sy'n rheoli'r cau.



- Gweithio gyda **AGC** i wneud yn siŵr bod y broses yn ddiogel ac yn drefnus.



Rhaid i **Gomisiynwyr** roi gwybod i bartneriaid eraill pan fydd gwasanaeth yn cau.

# Geiriau anodd

## Asesiad risg

Mae asesiad risg yn broses ffurfiol ar gyfer edrych ar risgiau posibl, a sut i leihau risgiau.

## Comisiynu

Mae comisiynu yn meddwl cynllunio a thalu am wasanaethau i ateb anghenion pobl leol. Mae'r person sy'n gyfrifol am gomisiynu yn cael ei alw yn Gomisiynydd.

## Datgomisiynu

Datgomisiynu ydy pan fydd Comisiynwyr yn dod â chontract i ben gyda darparwr gwasanaeth.

## Economi

Yr economi ydy'r ffordd mae pobl yn gwario arian a'r ffordd mae pobl yn gwneud arian.

## Taliadau Uniongyrchol

Mae Taliadau Uniongyrchol yn arian mae gwasanaethau cymdeithasol yn gallu ei roi i chi yn lle gwasanaeth. Rydych chi'n gallu ei ddefnyddio i brynu eich gofal a'ch cefnogaeth a'ch gwasanaethau eich hun. Mae hyn yn rhoi mwy o reolaeth i chi.

## Unigolyn Cyfrifol

Rhaid i bob gwasanaeth gael unigolyn cyfrifol. Maen nhw'n goruchwylio'r gwasanaeth.